GIG CYMRU NHS WALES
Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
Health Education and Improvement Wales (HEIW)

Polisi Peilot
Llai na Llawn Amser (LTFT)

Rhagfyr 2022

CYNNWYS

		Tudalen
1.	Cyflwyniad	3
2.	Pwrpas	3
3.	Cwmpas	3
4.	Cymhwyster	3
5.	Lleoliadau LTFT yng Nghymru	4
6.	Gwneud cais am hyfforddiant LTFT: Ceisiadau newydd ac agoriadau ymgeisio	5
7.	Adnewyddu statws LTFT a newid lleoliad	6
8.	Gofynion ar gyfer lleoliadau LTFT	7
9.	Cyfrifoldebau hyfforddeion	8
10.	Cyfrifoldebau AaGIC	9
11.	Cyfrifoldebau'r TPD	9
12.	Cyfrifoldebau'r Sefydliadau Lletyol / Cyflogi	9
13.	Gofynion LTFT ac ARCP	10
14.	Absenoldeb Astudio ac Amser Datblygiad Addysgol	10
15.	LTFT, Gweithredu Uwch fel Ymgynghorydd a'r Cyfnod Gras	10
16.	Deiliaid Fisa Haen 2	11
17.	Ymgymryd â gwaith locwm fel hyfforddai LTFT	11
	Atodiad 1 Diagram llif ar gyfer ymgeisio a chymeradwyo	12
	Atodiad 2 Diagram llif ar gyfer amgylchiadau eithriadol	13
	Atodiad 3 Dogfennaeth ategol – Amgylchiadau eithriadol	14

1. Cyflwyniad

1.1 Cynllun yw hyfforddiant Llai na Llawn Amser (LTFT) sy'n caniatáu i feddygon a deintyddion dan hyfforddiant, o bob gradd, weithio'n rhan amser.

1.2 Mae gan **bob** hyfforddai yr hawl i ofyn am hyfforddiant ar gyfradd lai na llawn amser. Mae AaGIC, ynghyd â'n Penaethiaid Ysgolion a Chyfarwyddwyr Rhaglenni Hyfforddiant, wedi ymrwymo i reoli hyfforddiant Llai na Llawn Amser mewn modd sy'n sicrhau ei argaeledd i gymaint o hyfforddeion â phosibl.

1.3 Dylid darllen y llawlyfr hwn ar y cyd â'r adrannau perthnasol o'r fersiwn ddiweddaraf o'r Canllaw Aur, sy'n manylu ar ddibenion cytunedig y DU ynghyd â'r rhesymeg a'r broses ymgeisio ar gyfer hyfforddiant Llai na Llawn Amser.

1.4 Dylai hyfforddeion a hyfforddwyr fod yn ymwybodol mai cynllun prawf yw'r manylion a amlinellir yn y llawlyfr hwn ar hyn o bryd i ddarparu ar gyfer y newidiadau diweddar i'r Canllaw Aur. Mae'r newidiadau hyn yn ymwneud â chategorïau LTFT yn ogystal â'r cynnydd enfawr yn y galw am hyfforddiant LTFT. Mae AaGIC yn rhagweld newidiadau pellach erbyn Awst 2023 lle bydd y system gyfan wedi'i throsi i system ymgeisio ar-lein. Bydd hyn ar y cyd ag agoriadau ymgeisio y byddwn yn eu treialu ym mis Chwefror 2023. Diolchwn am eich amynedd wrth i'r newidiadau hyn gael eu gweithredu.

2. Pwrpas

2.1 Diben y Llawlyfr hwn yw ymhelaethu ar yr egwyddorion a nodir yn y fersiwn ddiweddaraf o'r Canllaw Aur. Mae hefyd yn rhoi manylion i hyfforddeion ynghylch sut mae hyfforddiant LTFT yn gweithio yng Nghymru.

3. Cwmpas

3.1 Mae'r Llawlyfr hwn yn rhoi arweiniad i bob hyfforddai sy'n ystyried LTFT neu sydd eisoes yn ymgymryd â hyfforddiant ar gyfradd LTFT.

3.2 Dylai unrhyw hyfforddai sy'n dymuno parhau i weithio'n llawn amser, ond sy'n awyddus i gywasgu eu diwrnodau gwaith neu aildrefnu eu patrymau sifft, wneud hynny trwy gysylltu â'r sefydliad sy'n eu cyflogi (NWSSP yn y mwyafrif o achosion) a'r adran AD o fewn eu sefydliad lletyol.

4. Cymhwyster

4.1 Mae gan bob hyfforddai'r hawl gyfreithiol i wneud cais am LTFT ac nid yw deddfwriaeth cyflogaeth yn gosod trefn flaenoriaeth o ran cymhwystra. Nid yw'r Canllaw Aur bellach yn categoreiddio cymhwystra, a'r unig ofyniad i ddilyn hyfforddiant Llai na Llawn Amser yw rheswm personol (unigol) cadarn. Neilltuir un neu fwy o'r categorïau bras canlynol i geisiadau newydd:

- Hyfforddeion ag anabledd neu afiechyd
- Hyfforddeion sydd â chyfrifoldebau gofalu (plant, partner, perthynas arall)
- Lles a ffyniant
- Cyfleoedd unigryw
- Ymrwymiad crefyddol
- Datblygiad anfeddygol
- Mae hyblygrwydd o fewn rhaglen hyfforddiant (drwy drosi i hyfforddiant Llai na Llawn Amser) yn galluogi datblygiad portffolio gyrfa ehangach.

4.2 Bydd pob cais i ymgymryd â hyfforddiant ar gyfradd LTFT yn cael ei drin yn gadarnhaol gan AaGIC, Penaethiaid Ysgolion a Chyfarwyddwyr Rhaglenni Hyfforddiant a byddwn yn darparu ar ei gyfer lle bynnag y bo modd. Dylai hyfforddeion fod yn ymwybodol o'r goblygiadau i wasanaeth Sefydliadau Lletyol, y capasiti hyfforddi cyffredinol o fewn rhaglen hyfforddiant a'r cyllid sydd ar gael ar gyfer slotiau ar cyd—a gaiff eu hystyried cyn cytuno ar swydd a'i derbyn. Gall hyn arwain at lesteirio'r broses sy'n galluogi hyfforddeion i weithio LTFT, gofyniad am hyblygrwydd neu oediad / newid i'r trefniadau gweithio dewisol.

4.3 Pan fo'r galw am LTFT yn gorbwyso'r gallu neu'r adnoddau hyfforddi, bydd y rheini ag anabledd, salwch neu gyfrifoldeb gofalu'n cael eu blaenoriaethu.

4.4 Bydd pob rheswm cadarn yn cael ei ystyried.

4.5 Gall hyfforddeion a benodir i swyddi LAT ymgeisio am hyfforddiant LTFT a rhaid iddynt gwblhau'r broses yn yr un modd. Fodd bynnag, efallai na fydd lleoliad ar gael ar unwaith. Nid oes hawl i estyniad hyfforddiant cyfnod penodol ar sail pro rata.

5. Lleoliadau LTFT yng Nghymru

5.1 Mae dwy ffordd y darperir ar gyfer hyfforddeion LTFT o fewn rhaglenni hyfforddiant AaGIC; Slotiau ar y cyd a chwtogi oriau mewn swydd llawn amser.

5.2 ***Slotiau ar y cyd****

Mae rhai enghreifftiau o slotiau ar y cyd yn cynnwys:

- dau hyfforddai yn rhannu un swydd llawn amser e.e. (2 x 0.6)**
- tri hyfforddai yn rhannu dwy swydd e.e. (3 x 0.6), (3 x 0.7)*, NEU (2 x 0.6 + 0.8)
- pedwar hyfforddai yn rhannu tair swydd (4 x 0.7)

*Mae AaGIC yn darparu cyllid ychwanegol i'r sefydliad lletyol ar gyfer slotiau LTFT ar y cyd hyd at uchafswm o 20% o'r cyflog sylfaenol. Cytunir ar y cyllid hwn yn rhagolygol gyda'r Cyfarwyddwr Gofal Eilaidd, cyn cymeradwyo'r swydd.

Byddai'r hyfforddeion yn y swyddi hyn yn rheoli unrhyw drefniadau y tu allan i oriau ar gyfer y swydd(i) Cyfwerth ag Amser Llawn rhyngddynt. Yn yr achosion hyn, gall hyfforddeion slotiau ar y cyd weithio % WTE amrywiol.

Mae'n ofynnol gan sefydliadau lletyol i feddyg fod ar gael i ymorol am ddyletswyddau "ar alwad" bob diwrnod o'r wythnos. Bydd angen i hyfforddeion sy'n gweithio ar gyfradd LTFT fod yn hyblyg o amgylch diwrnodau gwaith i ddiwallu anghenion y gwasanaeth. Bydd hyn yn amrywio rhwng arbenigeddau a dylai hyfforddeion drafod hyn cyn ymgeisio fel bod y disgwyliad ynghylch gweithio y tu allan i oriau'n glir.
Ni ddylid drysu rhwng slotiau ar y cyd a rhannu swyddi—sydd fel arfer yn cyfyngu ar ddeiliaid swyddi i weithio 50% o swydd llawn amser.
Oherwydd cyfyngiadau ar y cyllid sydd ar gael i ategu hyfforddiant LTFT, efallai na fydd digon o arian i alluogi hyfforddeion i ymgymryd â slot ar cyd. Pan fo hyn yn digwydd, bydd opsiynau eraill yn cael eu harchwilio gyda'r hyfforddai dan sylw ac, os yw'n berthnasol, bydd yr hyfforddai'n cael ei roi ar restr aros a gynhelir gan AaGIC.

Cydnabyddir y bydd partneriaid hyfforddeion slotiau LTFT ar y cyd yn newid trwy gydol y rhaglen hyfforddiant ac yn dechrau / gorffen ar wahanol adegau yn ystod lleoliadau yn dibynnu ar amgylchiadau personol. Bydd camau rhesymol yn cael eu cymryd gan AaGIC

a'r Sefydliad Lletyol i ddarparu ar gyfer anghenion y partner(iaid) arall/eraill sy'n ymgymryd â slot ar y cyd, tra'n ceisio llenwi'r gyfran wag o'r slot hyfforddi. Lle nad yw'n bosibl i'r ddau hyfforddai ddechrau ar yr un dyddiad h.y. oherwydd dyddiadau cylchdroi a hyfforddeion yn dychwelyd o absenoldeb mamolaeth, efallai y bydd modd caniatáu bwlch ysbeidiol lle nad yw'r hyfforddeion yn ymroi i'r swydd ar yr un pryd, os yw'r gwasanaeth yn gallu darparu ar gyfer hyn.

**Nid yw trefniadau slotiau ar y cyd yn berthnasol i feddygon teulu mewn swyddi practis ond pan fônt yn gweithio mewn swyddi gofal eilaidd yn unig. O bryd i'w gilydd, bydd meddygon teulu dan hyfforddiant yn ymgymryd â slotiau ar y cyd gyda hyfforddeion gofal eilaidd mewn lleoliadau ysbyty. Dylid sicrhau cymaint o slotiau ar y cyd â phosibl rhwng hyfforddeion gofal sylfaenol ac eilaidd, lle bynnag y bo modd.

Llai o Sesiynau mewn Swydd Llawn Amser
Mae hyfforddai'n cynnal swydd lawn amser sefydledig ond yn gweithio llai o oriau

5.3 **Gwybodaeth LTFT sy'n benodol i arbenigedd**
Oherwydd gofynion y cwricwlwm a'r rhaglen, efallai y bydd rhai adegau yn ystod rhaglen hyfforddiant pan fydd cyfyngiadau ar y % WTE mewn grym. Rhaid i hyfforddeion drafod ceisiadau posibl gyda'u TPD i ategu eu proses o wneud penderfyniadau.

6. Ymgeisio am Hyfforddiant LTFT – Ceisiadau Newydd ac Agoriadau Ymgeisio

Mae AaGIC ar hyn o bryd yn adolygu'r broses ymgeisio gyda golwg ar ateb digidol cynaliadwy. Bydd yr ateb hwn ar gael ar wefan AaGIC o fis Chwefror 2023 ymlaen. Dylai ymgeiswyr cyn Chwefror 2023 wneud cais drwy gyfrwng yr hen waith papur a'r amserlenni.

Gall pob hyfforddai wneud cais am hyfforddiant LTFT. O fis Chwefror 2023 ymlaen bydd tair ffordd bosibl i hyfforddeion wneud cais yn dibynnu ar eu hamgylchiadau presennol, sef:

- Hyfforddeion gyda Rhif Hyfforddiant Cenedlaethol (NTN) yng Nghymru
- Hyfforddeion a benodwyd i Gymru mewn Rownd Recriwtio Genedlaethol gyfredol
- Ceisiadau amgylchiadau eithriadol

Gofynnir i **hyfforddeion sydd ag NTN Cymreig** wneud cais yn ystod agoriadau ymgeisio. Bydd yr agoriadau ymgeisio ar gyfer 2023 fel a ganlyn:
Yn achos hyfforddeion sy'n dymuno dechrau ar gyfradd LTFT rhwng 1 Awst 2023 a 31 Ionawr 2024, rhaid cyflwyno ceisiadau rhwng 1 Chwefror 2023 a 28 Chwefror 2023.

Yn achos hyfforddeion sy'n dymuno dechrau ar gyfradd LTFT rhwng 1 Chwefror 2024 a 31 Gorffennaf 2024, rhaid cyflwyno ceisiadau rhwng 1 Awst 2023 a 31 Awst 2023.

Dechrau LTFT	Agoriad Ymgeisio
Cyn Awst 2023 (hen broses)	16 wythnos cyn eich dyddiad dechrau neu ddim hwyrach na 31 Ionawr 2023.
Awst 2023 – Ionawr 2024	1 Chwefror – 28 Chwefror 2023
Chwefror 2024 – Gorffennaf 2024	1 Awst – 31 Awst 2023

Gall hyfforddeion wneud cais am LTFT yn ystod unrhyw un o'r agoriadau os gwyddant eu dyddiad cychwyn disgwyliedig ymlaen llaw. e.e. gall hyfforddai sy'n dechrau absenoldeb mamolaeth ar 1 Ionawr 2023, ac sy'n rhagweld Ionawr 2024 fel dyddiad dychwelyd, ymgeisio naill ai fis Chwefror neu fis Awst. Fodd bynnag, ni fyddai eu cais yn cael ei brosesu / cytuno arno tan ar ôl yr agoriad ymgeisio agosaf at y dyddiad dechrau.

Rhaid i hyfforddeion sy'n dymuno cychwyn ar hyfforddiant LTFT cyn Chwefror 2023 gyflwyno eu cais o leiaf 16 wythnos cyn eu dyddiad cychwyn arfaethedig. Dylai hyfforddeion gwblhau eu cais ar y ffurflen gais sy'n dynwared ein ffurflen gais ar-lein 'newydd'.

Ni dderbynnir ceisiadau ar ôl 31 Ionawr 2023 ar yr hen system.

Bydd hyfforddeion sy'n newydd i Gymru yn ystod agoriad recriwtio cenedlaethol yn derbyn llythyr croeso unwaith y byddant wedi derbyn eu cynnig gan Gymru. Bydd y llythyr hwn yn amlinellu iddynt sut i ymgeisio am LTFT. Bydd amserlen benodol o bythefnos (10 diwrnod gwaith) i hyfforddeion wneud cais. Mae hyn er mwyn rhoi rhagrybudd priodol i sefydliadau lletyol a'r cyflogwr arweiniol sengl.
Dylai hyfforddeion fod yn ymwybodol, os nad yw eu dewis o leoliad yn gallu darparu ar eu cyfer yn gweithio LTFT, efallai y byddwn yn cysylltu â nhw gyda lleoliad arall a fydd yn gallu diwallu eu cais.

6.1 Cyn gwneud cais, mae'n ofynnol i hyfforddeion drafod eu cynlluniau gyda'u Cyfarwyddwr Rhaglen Hyfforddiant (TPD) i wirio'r effaith y bydd hyn yn ei chael ar eu hyfforddiant i'r dyfodol a sut mae'n hwyhau'r amser sydd i'w ymroi i'r rhaglen hyfforddi.

6.2 Mae manylion y broses ar gyfer ymgeisio am hyfforddiant LTFT, y camau gofynnol a'r amserlenni cysylltiedig wedi'u cynnwys yn Atodiad 1.

6.3 Dim ond hyfforddeion sy'n dynodi amgylchiadau eithriadol neu sy'n gwneud cais yn ystod agoriad recriwtio cenedlaethol penodol fydd yn cael eu hystyried oddi allan i'r amserlenni hyn. Mae amgylchiadau eithriadol yn cynnwys mater iechyd personol sylweddol neu fater iechyd sylweddol ar ran rhywun y maent yn gofalu amdano. Mae enghreifftiau o'r ddogfennaeth ategol sydd ei hangen i'w gweld yn yr atodiadau.

7. Adnewyddu statws LTFT a newid lleoliad

7.1 Mae'r Canllaw Aur yn nodi bod cynlluniau hyfforddiant LTFT hyfforddeion i'w hadolygu'n flynyddol. **O Chwefror 2023 ymlaen ni fydd yn ofynnol i hyfforddeion lenwi ffurflen adnewyddu cais LTFT i adnewyddu eu statws LTFT.** Byddwn yn cadarnhau gyda hyfforddeion yn ystod Gaeaf 2022 eu dymuniad i barhau mewn swydd LTFT ar yr un ganran gyda'r un diwrnodau gwaith. Wrth gadarnhau eu statws, ni fydd y % LTFT yn newid rhwng lleoliadau ac **ni fydd yn ofynnol iddynt lenwi ffurflen adnewyddu**. Sylwch, gofynnir i hyfforddeion nodi'u diwrnodau gwaith dewisol ond ni all y sefydliad lletyol warantu hyn. Efallai y bydd hyblygrwydd yn anghenraid a bydd sefydliadau lletyol yn cysylltu â hyfforddeion os na ellir darparu ar gyfer y dewisiadau hyn yn y sefydliad cylchdro. Bydd disgwyl i hyfforddeion gyflwyno cais newydd bob blwyddyn os nad ydynt yn cwblhau eu cadarnhad o statws LTFT drwy gyfrwng y cyfrifiad. Gellir cytuno ar newidiadau i ddiwrnodau gwaith ond nid y canran gwaith gyda'r sefydliad lletyol cylchdro. Dylai hyfforddeion anfon e-bost at y TPD a'r sefydliad lletyol gyda gwybodaeth o ran newid eu diwrnodau.

7.2 Rhaid cytuno ar y canlynol ar gyfer pob cylchdro (mae'r wybodaeth mewn cromfachau'n dynodi'r rhai sy'n gyfrifol am y gytundeb):

- Bod hyfforddiant priodol yn bosibl, ac na fydd hyn yn effeithio ar hyfforddiant unigolion eraill o fewn yr adran (TPD a rheolwr rhaglen yn AaGIC a threfnydd rota'r sefydliad lletyol).
- Bod anghenion gwasanaeth yr adran yn gallu cael ei ddiwallu. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid dod i gytundeb llawn gyda'r sefydliad lletyol er mwyn sicrhau y gellir darparu ar gyfer y trefniant LTFT arfaethedig heb effeithio ar ofal / rotâu cleifion, ac ati. (Cyfarwyddwr Clinigol neu ddirprwy enwebedig yn y Sefydliad Lletyol / rheolwr practis ar gyfer meddygon teulu dan hyfforddiant).
- Bod cyllid digonol yn bodoli ar gyfer trefniadau slotiau ar y cyd (swyddog LTFT AaGIC)

7.3 Er mwyn cyflawni hyn, bydd y broses ganlynol yn cael ei rhoi ar waith:

i. Bydd y TPD yn cadarnhau'r cylchdro a'r slotiau ar y cyd ar gyfer y cylchdro nesaf yn seiliedig ar y nifer o hyfforddeion LTFT a gadarnhawyd sy'n ymroi i'r rhaglenni. Bydd hyn yn unol ag egwyddorion cynllunio rhaglen AaGIC.

ii. Bydd AaGIC yn cadarnhau p'un a oes cyllid ar gael i gynnal yr holl drefniadau gofynnol ar gyfer slotiau ar y cyd, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer lleoliadau LTFT 'newydd'.

iii. Bydd AaGIC yn hysbysu'r Sefydliadau Lletyol am hyfforddeion sy'n cylchdroi i'w gweithle 14 wythnos cyn y dyddiad cyfnewid. Diben hyn yw rhoi'r wybodaeth angenrheidiol i'r sefydliad lletyol i ddod i benderfyniad ynghylch a ellir diwallu anghenion y gwasanaeth. Mae'r amserlen wedi'i nodi yn Atodiad 1.

iv. Unwaith y cytunir arno, bydd AaGIC yn cadarnhau'r dyraniad lleoliad terfynol gyda'r sefydliad sy'n cyflogi (NWSSP) a'r sefydliad lletyol.

v. Bydd hyfforddeion yn cael gwybod am eu partneriaid slot ar y cyd yn eu lleoliad 'newydd' drwy fewngofnodi i *Intrepid*. Bydd swyddfa LTFT AaGIC yn cyfarwyddo hyfforddeion i fewngofnodi i *Intrepid* unwaith y bydd yr holl leoliadau lletyol wedi'u cadarnhau. Dim ond pan fo'r mwyafrif o'r lleoliadau wedi'u cadarnhau y bydd yr hyfforddeion yn cael eu hysbysu am eu lleoliad nesaf a ph'un a ydy'u cais LTFT wedi'i gymeradwyo ai peidio (gweler yr amserlin yn Atodiad 1). Os bydd arbenigedd neu sefydliad lletyol yn mynnu bod angen i hyfforddai weithio diwrnodau amgen i fodloni gofynion addysg, hyfforddiant neu wasanaeth bydd hyn yn cael ei ddwyn i sylw'r hyfforddai. Os na all carfannau ddod i gytundeb, cysylltir â'r TPD ac NWSSP i gyfryngu datrysiad rhyngddynt.

7.5 Dylai hyfforddeion sy'n dymuno newid eu canran gwaith neu ddychwelyd i waith llawn amser drafod eu cynlluniau gyda'u TPD a chyflwyno cais. Dylid gwneud hyn trwy gyfrwng ffurflen gais LTFT newydd yn ystod yr agoriadau ymgeisio.

7.6 Bydd hyfforddeion yn cynnal eu statws WTE neu LTFT cyfredol hyd nes y bydd pob agwedd ar y broses ymgeisio neu gyfnewid LTFT wedi'u cwblhau a'u bod wedi cael cadarnhad gan dîm gweinyddol AaGIC. Ni ellir cyflwyno ceisiadau LTFT yn ôl-weithredol.
Rydym yn rhagweld y bydd cyflogwyr yn cymryd 10 diwrnod i brosesu'r wybodaeth am leoliad(au). Yn achos arbenigeddau lle mae niferoedd uchel o geisiadau gall gymryd mwy o amser i gytuno ar y slotiau ar y cyd gyda'r sefydliad lletyol.

8. Gofynion ar gyfer Lleoliadau LTFT

8.1 Dylai'r rhaglen hyfforddiant ar gyfer hyfforddeion LTFT gynnig yr un cyfleoedd addysgol ag yn achos hyfforddeion amser llawn. Disgwylir i hyfforddeion LTFT weithio cyfran pro rata o'r hyn y mae'r hyfforddeion amser llawn yn ei weithio, gan gynnwys sifftiau gyda'r hwyr, gyda'r nos a phenwythnosau eu cydweithwyr llawn amser yn yr un adran.

8.2 Gall patrymau gwaith amrywio rhwng sefydliadau lletyol ac arbenigeddau a, lle bo'n berthnasol, gallant ddibynnu ar addasiadau rhesymol a argymhellir gan yr adran iechyd galwedigaethol. Ni all sefydliadau lletyol warantu'r diwrnodau gwaith a ffefrir gan hyfforddeion. Mae'n bosibl y bydd angen hyblygrwydd a bydd sefydliadau lletyol yn cysylltu â hyfforddeion os na ellir darparu ar gyfer eu dewisiadau.

8.3 Mae'n ofynnol i hyfforddeion yng Nghymru ymgymryd â dim llai na 50% o hyfforddiant llawn amser yn unol ag argymhelliad y GMC. Gall hyfforddeion felly weithio 50%, 60%, 70% neu 80% o'r WTE yn unig (nid yw gweithio 65, 75 neu 85% yn ymarferol o ran cynlluniau rota).

9. Cyfrifoldebau hyfforddeion

9.1 Hyfforddeion sy'n gyfrifol am ysgogi ceisiadau i ymgymryd â hyfforddiant LTFT a newid statws yn y lle cyntaf, yn ogystal â rhoi diweddariad i'r swyddfa LTFT o ran eu manylion cyswllt gan gynnwys eu cyfeiriad e-bost gohebol.

9.2 Dylai hyfforddeion gysylltu â'u TPD cyn gynted â phosibl i drafod eu bwriad i ymgymryd â hyfforddiant LTFT. Bydd y TPD yn amlinellu'r lleoliad i'r hyfforddai yn ogystal ag effaith hyfforddiant LTFT ar ei ddyddiad cwblhau hyfforddiant.

9.3 Dylai hyfforddeion gyflwyno eu cais LTFT newydd yn unol â'r gofynion a'r amserlenni a nodir yn Atodiad 1 neu'r tabl yn Adran 6.

9.4 Rhaid i hyfforddeion gwblhau arolygon y cyfrifiad yn ôl y gofyn er mwyn osgoi'r angen i adnewyddu eu statws LTFT gyda phob newid lleoliad.

9.5 Unwaith y bydd hyfforddeion wedi'u hysbysu bod eu ceisiadau LTFT yn cael eu darparu ar eu cyfer, dylent gysylltu â'r cydlynydd rota a'r partner slot ar y cyd, lle bo'n berthnasol, i gytuno ar rota a threfniadau gweithio.

9.6 Rhaid i hyfforddeion hysbysu Cyfadran / Adran Hyfforddiant y Coleg, eu TPD a thîm GP AaGIC (yn achos Meddygon Teulu) ynglŷn â'u trefniadau newydd.

9.7 Rhaid i hyfforddeion hysbysu eu TPD ac AaGIC ynghylch unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau cyn gynted â phosibl a llenwi **ffurflen gais LTFT newydd** os yn dymuno newid eu cyfradd WTE yn unol â'r amserlenni yn Atodiad 1.

9.8 Rhaid i hyfforddeion ddeall bod y broses ar gyfer cymeradwyo hyfforddiant LTFT yn cynnwys cyd-drafod rhwng yr holl bartïon perthnasol; gan sicrhau bod gofynion y maes llafur perthnasol yn cael eu bodloni ar sail y gyfradd pro-rata gytunedig a bod modd darparu a chynnal gwasanaethau.

10. **Cyfrifoldebau AaGIC**

10.1. Mae AaGIC wedi ymrwymo i hyrwyddo LTFT a galluogi modd o gyrchu hyfforddiant LTFT ar gyfer cynifer o ymgeiswyr â phosibl.

10.2. Mae AaGIC yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl hyfforddiant LTFT yn cael ei gyflawni drwy gyfrwng swyddi a rhaglenni sydd wedi'u cymeradwyo'n rhagolygol gan y GMC.

10.3. Bydd AaGIC yn rheoli'r broses LTFT mewn modd sy'n sicrhau bod gwybodaeth sy'n ymwneud â hyfforddeion LTFT yn cael ei ffrydio rhwng yr holl bartïon perthnasol (h.y. yr hyfforddai, TPD, *Medical Staffing*, Rheolwr Practis Meddyg Teulu, timau Cyllid ac AaGIC). Bydd AaGIC yn gweithio gyda'r TPD, NWSSP a Sefydliad Lletyol i gadarnhau trefniadau ar gyfer lleoliadau LTFT.

10.4. Bydd AaGIC yn derbyn, yn ystyried ac yn adolygu pob apêl LTFT pan fo hyfforddeion o'r farn bod eu cais LTFT wedi'i wrthod yn afresymol ar unrhyw gam o'r broses.

11. Cyfrifoldebau'r TPD

11.1. Mae TPD yn gyfrifol am hyrwyddo diwylliant ac ymagwedd gadarnhaol at LTFT ar draws yr arbenigeddau.

11.2. Mae'n ofynnol i TPD ystyried yr holl geisiadau a gofynion i ymgymryd â hyfforddiant LTFT a pharhau dan yr amodau hynny ochr yn ochr â cheisiadau'r holl hyfforddeion eraill ynghlwm wrth y rhaglen. Maent wedi ymrwymo i ddynodi'r cyfluniad mwyaf priodol o bobl a swyddi i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd hyfforddi sydd ar gael a, lle bo'n bosibl, lleihau'r effaith ar ddarpariaeth gwasanaethau.

11.3. Mae'n ofynnol i TPD gysylltu â rheolwr y rhaglen ar ddiwedd agoriad ymgeisio LTFT i adolygu ac ystyried pob cais a sut y gellir darparu ar eu cyfer. Bydd y rheolwr rhaglen yn cysylltu â swyddog LTFT AaGIC i wirio a ydy'r cynigion hyn yn cyd-fynd â'r gyllideb a ddyrannwyd. Bydd ceisiadau ar ôl hyn yn cael eu hystyried mewn amgylchiadau eithriadol.

11.4. Dylai hyfforddeion gofal eilaidd ddefnyddio'r arfarniad ES trimisol i roi adborth ar anghenion addysgol a chynllun hyfforddi LTFT a sefyllfa'r hyfforddai mewn perthynas â hyfforddiant cyfwerth ag amser cyflawn. Dylai'r ESSR gynnwys paragraff yn amlinellu bod y lleoliad wedi bodloni anghenion addysgol yr hyfforddai. Dylid adborthi unrhyw bryderon i'r TPD.

Dylai meddygon teulu dan hyfforddiant ddilyn eu gofynion arferol ar gyfer adolygiadau addysgol.

12. Cyfrifoldebau Sefydliadau Lletyol / Cyflogi

12.1. Nid yw sefydliadau lletyol i drin hyfforddeion LTFT yn wahanol i hyfforddeion llawn amser a dylid eu trin yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r cyflogwr.

12.2. Bydd sefydliadau lletyol yn adolygu ceisiadau am hyfforddiant LTFT fesul arbenigedd fel cyfangorff ac yn cadarnhau ag AaGIC o fewn y cyfwng amser cytunedig (fel y manylir yn Atodiad 1) p'un a oes modd bodloni'r ceisiadau. Deuir i gytundeb ymhlith hyfforddeion LTFT presennol cyn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr newydd. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei hanfon at y sefydliad lletyol ar ddiwedd yr agoriad ymgeisio LTFT ynghyd â'r swyddi dan hyfforddiant a ddyrannwyd i'r sefydliad hwnnw (gweler Atodiad 1 am gamau ymgeisio).

13. Gofynion LTFT ac ARCP

13.1. Mae angen i bob hyfforddai fodloni'r gofynion ar gyfer dilyniant mewn hyfforddiant fel y nodir yn y cwricwla ar gyfer hyfforddiant a gymeradwyir gan y GMC.

13.2. Dylai hyfforddeion LTFT wynebu ARCP o leiaf bob blwyddyn gydag uchafswm o 15 mis* rhwng y naill a'r llall. Mae'n bosibl y bydd angen ARCP ar hyfforddeion LTFT sydd ar drothwy newid—lle mae angen gwneud penderfyniadau ynghylch dilyniant mewn hyfforddiant; h.y., symud ymlaen i'r flwyddyn hyfforddiant nesaf. Mae hyfforddeion LTFT yn wynebu mwy o ARCP na'u cydweithwyr llawn amser. Dylai pob hyfforddai LTFT ddefnyddio cyfrifydd LTFT i gadw golwg ar eu hamser hyfforddi a'u dyddiad cwblhau hyfforddiant disgwyliedig. Dylid cyflwyno'r manylion hyn ym mhob ARCP.

* Dylai meddygon teulu dan hyfforddiant ddilyn y canllawiau LTFT ar gyfer ARCP a amlinellir gan yr RCGP.

13.3. Disgwylir i hyfforddeion LTFT ymgymryd â'r gofynion asesu fel y'u gosodir yn eu cwricwla perthnasol ar sail pro rata a mantoli asesiadau yn y gweithle'n gyfartal.

13.4. Yn achos hyfforddeion LTFT, os bydd angen estyniad i hyfforddiant ar ôl dyfarnu Deilliant 3 ARCP, caiff hyn ei gyfrifo ar sail pro rata ar gyfradd gyfatebol i hyfforddai llawn amser. Os dyfernir deilliant 3 ar sail aflwyddiant arholiad, fel yn achos pob hyfforddai, rhoddir **estyniad cyfnod penodol** hyd at ddyddiad ailsefyll yr arholiad. Dylid nodi'r dyddiad hwn ar y ffurflen ddeilliannau ARCP.

14. LTFT, Absenoldeb Astudio ac Amser Datblygiad Addysgol

14.1. Mae gan hyfforddeion LTFT hawl pro-rata i'r nifer o ddiwrnodau absenoldeb astudio y flwyddyn a ganiateir ar gyfer eu harbenigedd.

14.2. Gall hyfforddeion LTFT ymofyn dyraniad cyllid absenoldeb astudio llawn ar gyfer eu harbenigedd bob blwyddyn yn hafal â'u cyfoedion. Nid yw'r dyraniad cyllid ar gyfer absenoldeb astudio ar sail pro rata yn gyflin â % WTE yr hyfforddeion.

14.3. Mae gan hyfforddeion LTFT hawl pro rata i amser datblygiad addysgol

15. LTFT, Gweithredu Uwch fel Ymgynghorydd a'r Cyfnod Gras (nid yw'n berthnasol i feddygon teulu dan hyfforddiant)

15.1. Fel yn achos pob hyfforddai, gall hyfforddeion LTFT wneud cais am swydd ymgynghorol. Gellir eu cyfweld hyd at chwe mis cyn eu dyddiad CCT disgwyliedig; mae hyn ar sail cyfnod penodol nid pro rata.

15.2. Diben y Cyfnod Gras yw rhoi amser i feddygon dan hyfforddiant (ac eithrio'r rhai mewn Ymarfer Cyffredinol) i gaffael swydd Ymgynghorol neu swydd arall ar ôl ennill eu CCT.

15.3. Uchafswm hyd y cyfnod gras yw chwe mis. Mae hyn ar sail cyfnod penodol nid pro rata.

15.4. Gall hyfforddeion LTFT wneud cais am gyfnod o weithredu uwch fel ymgynghorydd. Yn achos hyfforddeion LTFT, bydd y cyfnod gweithredu uwch yn cyfateb, ar sail pro rata, i'r tri mis a gynigir i hyfforddeion llawn amser. Mae hyn yn gofyn am lenwi ffurflen Gweithredu Uwch fel Ymgynghorydd AaGIC.

16. Deiliaid FISA Haen 2

16.1. Un o'r nodau cymhwystra ar gyfer cais Fisa Haen 2 yw bod y cyflog yn cael ei dalu ar y 'gyfradd briodol ar gyfer y swydd' neu'n uwch, fel y nodir gan gyfadran Fisa a Mewnfudo y DU ('Rheolau Mewnfudo – Atodiad J: codau ymarfer ar gyfer gwaith medrus.') Rhaid bodloni'r trothwy hwn trwy gydol y cyfnod nawdd er mwyn i'r fisa barhau'n ddilys. O ganlyniad, dylai deiliaid FISA Haen 2 ddewis 80% ar eu ffurflen gais.

16.2. Cyfrifoldeb yr hyfforddai yw sicrhau bod yr oriau gwaith LTFT y mae'n gofyn amdanynt yn bodloni'r trothwy hwn. Rhaid rhoi gwybod i Noddwr yr hyfforddai am unrhyw newidiadau yn yr oriau a'r cyflog cytundebol cyn gynted ag y byddant wedi'u cymeradwyo.

17. Gwaith locwm

Mae meddygon LTFT yn gallu gweithio sifftiau locwm yn yr un modd â gweithwyr llawn amser. Dylent hysbysu eu TPD o'u bwriad i weithio sifftiau locwm a chofnodi'r rhain ar eu Ffurflen R yn ystod ARCP, gan fod y sifftiau hyn y tu allan i'w patrwm gweithio LTFT cytunedig. Dylai meddygon teulu dan hyfforddiant hysbysu eu Goruchwyliwr Addysg.

17.1. Fel y manylir yng Nghanllawiau COPMED ar gyfer Ymgymryd â Gwaith Ychwanegol, fel hyfforddai LTFT, 'dylai gwaith ychwanegol rheolaidd arwain at adolygiad o'r amserlen hyfforddiant LTFT'. Mae LTFT ar sail iechyd a gorweithio / lles yn annhebygol o arwain at gymeradwyo gwaith ychwanegol.

17.2. Rhaid datgan yr holl waith ychwanegol sy'n mynnu trwydded i ymarfer, gan gynnwys sifftiau locwm, wrth y Swyddog Cyfrifol a dylid ei ddatgan ar y Ffurflen R. Mae hyn yn cynnwys unrhyw gyfnodau o ddyletswyddau ychwanegol yn y gweithle arferol y tu hwnt i oriau cytundebol. Amlinellir hyn yn Y Canllaw Aur – adran 3.117.

18. Apeliadau

Mae'n bosibl y bydd meddygon am apelio yn erbyn penderfyniad i wrthod hyfforddiant LTFT. Bydd AaGIC yn gwneud popeth o fewn rheswm i ddarparu ar gyfer dymuniadau i ymgymryd â hyfforddiant ar gyfradd LTFT, fel yr amlinellir yn y polisi hwn. Nid yw AaGIC yn atebol am sefydliadau cynnal yn gwrthod lletya Meddyg(on) LTFT. Byddwn yn edrych ar atebion amgen (symud lleoliad) i ddarparu ar gyfer gwrthodiad cais. Dylai unrhyw hyfforddai sy'n dymuno apelio gysylltu â swyddog LTFT AaGIC drwy e-bost. Bydd y Cyfarwyddwr Gofal Eilaidd neu'r dirprwy yn cysylltu â'r hyfforddai i adolygu'r apêl a dod o hyd i ateb.

Agoriad Ymgeisio LTFT ar gyfer Ymgeiswyr Newydd

ATODIAD 1

	Amserlin				
	Wythnos 1 i 4	Wythnos 5 i 13			Wythnos 14
	Cam 1	Cam 2	Cam 3	Cam 4	Cam 5
Agoriad Ymgeisio ar gyfer LTFT yn dechrau Awst 23 – Ionawr 24	Hyfforddai i gyflwyno cais LTFT gan ddefnyddio'r ffurflen gais electronig.	Bydd Swyddog LTFT yn cyflwyno pob cais LTFT newydd i'r TPD a'r Rheolwr Rhaglen. Bydd TPD a'r Rheolwr Rhaglen yn adolygu pob cais ac yn cynllunio'r cylchdroadau Rheolwr Rhaglen i roi diweddariad i'r Swyddog LTFT gyda statws Slotiau ar y Cyd ac Oriau Gostyngol i bob ymgeisydd newydd.	Swyddog LTFT yn cysylltu â'r Tîm Cyllid i ymorol am unrhyw anghenion ariannu ychwanegol. Rheolwyr Rhaglen yn diweddaru cronfa ddata *Intrepid* gyda'r wybodaeth gylchdro newydd. E-byst yn cael eu hanfon at hyfforddeion i'w hysbysu bod cronfa ddata *Intrepid* yn cael ei diweddaru â gwybodaeth gylchdro newydd. Cynlluniau cylchdro dros dro'n cael eu hanfon at Fyrddau Iechyd gan eu hysbysu am bob cais LTFT newydd.	Byrddau Iechyd yn anfon statws cymeradwyo ar gyfer pob cais LTFT newydd. Rheolwyr Rhaglen yn diweddaru *Intrepid* gydag unrhyw addasiadau terfynol	Swyddog LTFT i anfon cadarnhad o bob cais LTFT newydd at TPD, y Rheolwr Rhaglen, Byrddau Iechyd ac NWSSP. *Dylid nodi bod y cais yn dychwelyd i gam 2 os nad yw'r cais wedi'i gymeradwyo. Anfonir cadarnhad o statws LTFT a'r camau nesaf at bob hyfforddai LTFT Newydd. Rheolwyr Rhaglen yn anfon cylchdroadau terfynol i bob Bwrdd Iechyd ac NWSSP. Anfonir e-bost at bob hyfforddai i gadarnhau bod y wybodaeth am leoliadau ar *Intrepid* bellach yn gyfredol.
Agoriad Ymgeisio ar gyfer LTFT yn dechrau Chwefror 24 – Gorffennaf 24	Cam 1	Cam 2	Cam 3	Cam 4	Cam 5

ATODIAD 2

Cais LTFT i Ymgeiswyr Eithriadol

Cais LTFT Eithriadol	Cam 1 Diwrnod 1	Cam 2 O fewn pythefnos	Cam 3 O fewn 4 wythnos	Cam 4 O fewn 6 wythnos	Cam 5 O fewn 8 wythnos
	Hyfforddai i gyflwyno cais LTFT gan ddefnyddio'r ffurflen gais electronig.	**Swyddog LTFT i ofyn am ddogfennaeth ategol.** * Nodwch y gallai methiant i ddychwelyd y ddogfennaeth ofynnol oedi'r broses gyffredinol.	**Swyddog LTFT yn cyflwyno ceisiadau i'r TPD a'r Rheolwr Rhaglen.** **TPD a Rheolwr Rhaglen yn adolygu pob cais a chylchdroadau presennol.** **Swyddog LTFT yn cysylltu â'r Tîm Cyllid i ymorol am unrhyw anghenion cyllid ychwanegol.** **Swyddog LTFT i gyflwyno ceisiadau i'r Byrddau Iechyd.**	**Byrddau Iechyd yn anfon statws cymeradwyo ar gyfer pob cais LTFT newydd.** **Rheolwyr Rhaglen yn diweddaru *Intrepid* gydag unrhyw addasiadau terfynol**	**Caiff ymgeisydd LTFT ei hysbysu am ddeilliant y cais.** * Bydd unrhyw geisiadau sy'n cael eu gwrthod yn cael eu hadolygu gan y Cyfarwyddwr neu'r Dirprwy Gyfarwyddwr. **Swyddog LTFT i hysbysu TPD, Rheolwr Rhaglen, Byrddau Iechyd ac NWSSP.** **Ymgeisydd LTFT i gychwyn ar statws LTFT newydd (os caiff ei gymeradwyo).**

ATODIAD 3

Dogfennaeth ategol sydd ei hangen ar gyfer ceisiadau LTFT Amgylchiadau Eithriadol

Amgylchiad	Dogfennaeth Ategol	Dyddiad Darfod Cymhwystra
Salwch sydyn ymgeisydd	Llythyr gan eich Meddyg Teulu / Ymgynghorydd Iechyd Galwedigaethol / Arbenigwr Meddygol sy'n cynnwys: • Natur y gofynion anabledd / iechyd ar gyfer Hyfforddiant LTFT Rhaid i'r wybodaeth fod ar bapur pennawd neu ddeillio o gyfeiriad e-bost swyddogol y gellir ei ddilysu. Dylid dyddio'r llythyr o fewn y tri mis diwethaf.	Hyd at ddiwedd y rhaglen
Angen sydyn i ofalu am bartner sâl / anabl, perthynas neu ddibynnydd arall (plentyn)	Llythyr gan eich Meddyg Teulu neu Arbenigwr Meddygol sy'n ymwneud â gofal eich partner / perthynas / dibynnydd sy'n cynnwys: • Lefel y gofal a ragwelir y bydd angen i chi ei ddarparu. Rhaid i'r wybodaeth fod ar bapur pennawd neu ddeillio o gyfeiriad e-bost swyddogol y gellir ei ddilysu, wedi'i dyddio o fewn y tri mis diwethaf.	Hyd at ddiwedd y rhaglen

Bydd pob cais yr ymgeisir amdano dan amgylchiadau eithriadol yn cael ei adolygu'n flynyddol i asesu'r angen i barhau ar gyfradd LTFT.